OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 1013 (Cy.110)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU
# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

# Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) ac Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *31 Mawrth 2004* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 113(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a pharagraffau 1 a 7 o Atodlen 4 iddi(**1**), ac adran 143 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 1 a 3 o Atodlen 9 iddi (**2**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) ac Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i awdurdodau bilio yng Nghymru yn unig.

### Diwygiadau

**2.** Diwygir Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 ("Rheoliadau 1992")(**3**) a Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) 1989 ("Rheoliadau 1989")(**4**) yn unol â rheoliad 3.

(**1**) 1992 p.14. Datganolwyd y pwerau hyn, mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn Atodlen 1.

(**2**) 1988 p.41. Datganolwyd y pwerau hyn, mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1.

(**3**) O.S. 1992/613, yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1993/773, 1998/295.

(**4**) O.S. 1989/1058, yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1990/145, 1992/474 a 1993/616.

**Taliadau ynghylch atafaelu**

**3.** Yn Atodlen 5 o Reoliadau 1992 ac yn Atodlen 3 o Reoliadau 1989:

(a) yng ngholofn (2) o'r Tabl i baragraff 1—

(i) mewn perthynas â phennawd A (ymweliad pan na wneir atafaeliad), yn lle "£20.00" rhodder "£22.50", ac yn lle "£15.00" rhodder "£16.50";

(ii) mewn perthynas â phennawd E (meddiant o nwyddau), yn lle "£12.50" rhodder "£14.00" ac yn lle "£10.00" rhodder "£11.00"; a

(iii) mewn perthynas â phennawd H (taliad blaenorol etc.), yn lle "£20.00" rhodder "£22.50"; a

(b) yn is-baragraff (1) o baragraff 2 (symiau mewn perthynas ag atafaeliad)—

(i) ym mharagraff (a), yn lle "£20" rhodder "£22.50"; a

(ii) ym mharagraff (b), yn lle "20 per cent" rhodder "22.5 per cent".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

31 Mawrth 2004

(**5**) 1998 p.38.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 ("Rheoliadau 1992") a Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) 1989 ("Rheoliadau 1989") mewn perthynas â Chymru.

Mae Rheoliad 3 yn diwygio lefelau ffioedd penodol y gellir eu codi mewn perthynas ag atafaelu. Mae'r cynnydd hwn yn unol â chwyddiant ers 1998 pan gynyddwyd y ffioedd ddiwethaf.